

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 42 Hydref 19, 2023 50c.

LLYGAD AM LYGAD? Bydd pawb yn ddall

Rhaid ein bod ni i gyd yn arswydo at yr ymladd dychrynlyd diweddaraf rhwng y Palestinaid a'r Iddewon a gychwynnodd gydag ymosodiad sydyn a chreulon Hamas ar gymunedau a gŵyl gerddorol yn Israel, gan ladd cannoedd o bobol ddiniwed, yn eu plith henoed a phlant. Yna daeth dialedd dychrynlyd Israel yn bomio Gasa, ac yn amddifadu'r trigolion o ddŵr, trydan a nwy. (Llun: BBC)



Gwreiddiau dwfn

Mae gwreiddiau'r casneb yn mynd 'nôl yn ddwfn i hanes. Fe allen ni ddadlau ei fod yn dechrau gyda Josua'n goresgyn Canaan trwy rym y cleddyf er mwyn sefydlu'r 'wlad o laeth a mêl' i ddeuddeg llwyth Israel yn sgil yr Exodus. Yn sicr, mae'n ganlyniad y ddau wrthryfel mawr gan yr Iddewon yn erbyn y Rhufeiniaid yng nghyfnod yr Eglwys Fore, pan chwalwyd y Deml a dinistrio Jerwsalem yn 700C, ac alltudio'r genedl i amryw wledydd eraill yn 1350C.

Disodli cenedl

Dewch ymlaen bron i ddwy fil o flynyddoedd i 1948. Gyda chefnogaeth yr Arlywydd Truman, fe ffurfiwyd yr Israel newydd, ac fe lifodd cannoedd o filoedd o Iddewon alltud i'r wlad. Disodlwyd nifer fawr o Balestinaid a fu'n byw yno ers oesoedd, a gorfodwyd y rhan fwyaf ohonynt i ymsefydlu mewn un gornel fach o'r wlad – sef Llain Gasa. Erbyn heddiw mae 2.3 miliwn ohonynt yn byw o dan amgylchiadau hynod ddiflas mewn darn o dir sydd tua'r un maint a Phenrhyn Llŷn. Dyma'r ardal fwyaf dwys ei phoblogaeth yn y byd. Ers 2007 mae plaid Hamas wedi bod yn rheoli Gasa. Mae rhai gwledydd Arabaidd, fel Iran a Syria, yn cydnabod Hamas fel llywodraeth ddilys. Ond i wledydd eraill, gan gynnwys Prydain ac America, mudiad terfysgol ydynt. Ers pymtheg mlynedd bu gwrthdaro ysbeidiol rhwng Hamas ac Israel, ond dim i'w gymharu â'r lladdfa erchyll bresennol.

Yr unig ateb

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi dweud ers tro mai'r unig ateb parhaol i'r gwrthdaro gwaedlyd diddiwedd yw'r cynllun 'dwy wladwriaeth,' a fyddai'n golygu cydnabod gwladwriaeth Palestina a hawl Israel i fodoli. Dyna farn y Cenhedloedd Unedig hefyd, sydd wedi galw am hynny eto ers dechrau'r gwrthdaro presennol. Yn anffodus, nid yw Israel na Hamas yn barod i drafod 'cael ffordd trwy'r drain at ochr hen elyn' fel meddai Waldo. Mae'r clawdd yn drwchus, y drain yn hynod bigog, a'r gwreiddiau'n eithriadol o ddwfn. Ond rhyw ddydd, bydd yn rhaid mynd trwyddo. Gweddïwn y daw'n fuan.

Alun Lenny

Detholiad o'r teyrngedau a dalwyd i'r Parchedig R. Alun Evans ddydd ei angladd

Roedd Tŷ Cwrdd
Bethlehem,
Gwaelod-y-
garth, a chapel
y Wenallt,
Amlogfa'r
Ddraenen,
Caerdydd, yn
llawn at yr
ymylon ar ddydd
angladd y



Parchedig R. Alun
Evans ar 4 Medi 2023. Delwyn Siôn
oedd â gofal y ddau wasanaeth, gyda
Delyth Evans a gofal am y gerddoriaeth.
Cyflwynwyd gweddi gan y Parchedig
Beti-Wyn James, a bu dwy wyres Alun,
Anna a Manon, yn adrodd soned 'Yr
Hen Gapel, Llanbrynmair' o waith
Iorwerth Cyfeiliog Peate.

Cyflwynwyd teyrngedau gan ddau
ffrind a chyn gydweithwyr ym myd
darlledu, Emlyn Davies ac Arwel Ellis
Owen, ac ar ran Tŷ Cwrdd Bethlehem,
gan Rhodri-Gwynn Jones.
Dyma beth o gynnwys y teyrngedau
rheini:

Os ydych chi am ddo i'n nabad rhywun
yn dda, fy nghyngor i fyddai hyn: Ewch
i bysgota efo nhw. Pan fo person ar lan
afon yn chwipio'r dŵr, weithiau'n
brwydro yn erbyn yr elfennau, ar adegau
yn oer hyd at ei esgyrn, yn teimlo'n
ddigysur, a'r amynedd yn brin, buan y
dewch chi i weld beth ydy gwir ruddin
dyn. Ac mi fŵm i yng nghwmni R. Alun
mewn pob math o amgylchiadau, a'r
cyfan welais i oedd yr anwylaf o blant
dynion, yn hawddgar, rhadlon a doeth, a
bob amser yn barod ei gymwynas.

Wrth lunio sgrïpt, o ran cyflwyno i
gamera, yn ei holi treiddgar ac yn ei
ddadansoddi deallus, roedd o'n athrylith
wrth ei waith.

Dechreuodd arwain ar lwyfan yr
Eisteddfod Genedlaethol yn 1969, a bu'n
gwneud hynny'n ddi-dor tan 1996. Bu ei
gyfraniad i'r Steddfod, yn gyhoeddus a
thu ôl i'r llenni, yn ddisglair tu hwnt: yn
gadeirydd y Cyngor, Llywydd y Llys a
chadeirydd y Bwrdd Rheoli a chael ei
ddyrfhafu'n Gymrawd. Mi sgrifennodd
o ddwy gyfrol ar gyfer y Steddfod, sef
hanes y Rhuban Glas a hefyd Gwobr
Goffa Llwyd o'r Bryn llyfr a

parhad ar dudalen 2

Teyrngedau i'r Parchedig R. Alun Evans – parhad

ddiweddarwyd ganddo ar gyfer y Steddfod eleni.

Mi fu'n gymwynaswr mawr i'r Urdd hefyd, wrth gwrs, ac yn un o arweinwyr Eisteddfod Llangollen am chwarter canrif.

Roedd ei heddychiaeth yn rhan annatod o'i bersonoliaeth, yn greiddiol i'w Gristnogaeth. Pan gafodd ei ddyrchafu i fod yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, teitl ei anerchiad o'r gadair ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd 'Iesu'r Cymod', a hynny yn y flwyddyn 2014, ar yr union adeg pan oedd yna bwyllgor Cymreig newydd gael ei sefydlu i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd ei dad yn heddychwyr wrth gwrs, ac felly Wynn ei frawd, ac roedd Alun yn gwbl bendant mai sail ei heddychiaeth oedd y ffaith mai efengyl y cymod ydy efengyl Iesu Grist, Ac mi fyddai'n dweud yn aml nad absenoldeb rhyfel ydy heddwch, ond yn hytrach presenoldeb egniol cariad anorchfygol Iesu Grist yn y byd.

Pan fyddai hi'n amser i ni ei throi hi am adre o lan y dŵr, waeth faint o bysgod fyddai yn y fasedg, waeth sut roedd y tywydd wedi bod, mi fyddai Alun yn edrych o'i gwmpas yn hamddenol, ac yn troi ata i ac yn dweud, 'On'd ydan ni'n lwcus!' A'r pnawn 'ma, wrth feddwl am R. Alun, ei gwmniath a'i gyfraniad sylweddol i fywyd y genedl, i fywyd bob un ohonom ni'n bersonol, i achos Iesu Grist y Cymodwr, wrth feddwl am y fraint o gael adnabod Alun, mi fedrwn ninnau i gyd ddweud, oni fedrwn: 'On'd ydan ni'n lwcus!'

Emlyn Davies

Tua'r amser yma o'r dydd, toc wedi dau o'r gloch y byddai Alun a minnau yn cyfarfod, bron bob dydd am yn agos i ddeng mlynedd. Alun yn cyflwyno Heddiw, rhaglen deledu, ddyddiol ar BBC Cymru, a fi yn rhyw gyw olygydd.

Cyfnod llawn cyffro yn hanes Cymru, o'r Arwisgo yng Nghaernarfon i'r Refferendwm aflwyddiannus, cyntaf ar ddatganoli, gydag ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ddarlledu, a Mudiad Amddiffyn Cymru ar ail gartrefi, yn llenwi bron pob penwythnos.

Amser llawn tensiwn i ddarlledwyr, oedd yn trio paratoi drafft cyntaf hanes, tra bod y protestiadau ar ddatblygiadau gwleidyddol yn digwydd yn fyw o'n cwmpas.

Unigolyn oedd Alun oedd yn barod i herio ac amau priodoldeb rhai penderfyniadau golygyddol, tra hefyd yn cynnig ffordd ymlaen. Roedd yn gadarn ei farn bod mwy i ddarlledu cyhoeddus nag adlewyrchu cymdeithas, a bod dehongli

digwyddiadau yn debyg o olygu hefyd bod y gwasanaeth yn mynd i ddylanwadu ar ddatblygiadau.

Roedd yn ddarlledwr creffitus a chraff. Fel holwr, roedd yn gwrando, yn we o sglein a sylwedd.

Roedd yna agosatrydd naturiol, a chyfoeth yn ei Gymraeg, llafar ac ysgrifenedig. Roedd yn awdur toreithiog ac yn sylwebydd penigamp. Cyfathrebwr gwych, gyda gwên barod, a llais y gellid ymddiried yn llwyr ynddo.

Fe symudodd Alun o gyflwyno *Heddiw* i fod yn bennaeth y Ganolfan Ddarlledu ym Mangor, gan chwarae rhan bwysig yn natblygiad Radio Cymru yn ogystal â sefydlu Bryn Meirion yn ganolfan aml gyfryngol yn y gogledd. Fe ddatblygodd Alun yn rheolwr a gweinyddwr hynod effeithiol, gyda pharch uchel i'w steil o gyfathrebu â'i staff.

Fe ddechreuodd ei yrfa yn y weinidogaeth yn Llandysul a'i gorffen ym Methel, Caerffili a Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Do fe fu yn un o blant yr 'anialwch gweinidogaethol' a chyfnewid y pulpud am stiwdio, ond yn ôl y daeth a hynny am fod yr 'alwad i wasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist yn gryfach na dim arall.'

'Mentor allan i'r afresymol fôr' a wnaeth, gan ychwanegu ei fod wedi derbyn yr hyn oedd ar gael, derbyn pob her, a 'dangos bod byw yn golygu mwy na bodoli.'

Arwel Ellis Owen

'Rwy'n taro gair i roi newyddion da ichi ynglŷn â'n hymdrechion i sicrhau Gweinidog i Fethlehem ... casgliad unfrydol y Pwyllgor oedd y dylem droi at y Parch. R. Alun Evans i gymryd gofal am Bethlehem ar y cyd â Bethel, Caerffili.

'Gwnaethpwyd ymholiadau, a chael ymateb brwdfrydig ganddo ar unwaith.

'Roedd yn gyfarfod cynnes a llawn gweledigaeth ymarferol,

'Mae hyn yn cynnig agor pennod newydd a chyffrous yn hanes Bethlehem ...'

Ac fel y gwyddoch, fe drowyd 'y cynnig' yn 'dderbyn' gan y naill ochr a'r llall, yn fuddsoddiad o'r radd flaenaf ac a dalodd ddifidid gwell na fedrai'r un farchnad stoc o gwmpas y byd hyd yn oed freuddwydio amdano.

Dechreuodd ar ei weinidogaeth ym Methlehem ym mis Ionawr 2008, a chynhaliwyd y Cwrdd Sefydlu ar 19 Ebrill.

Ym myd y cyfryngau, mae hi'n ffasiynol iawn i fesur llwyddiant y dyddiau hyn yn ôl ffigyrau gwyllo a gwrando Ond mi ddywed y rhai sy'n deall yn well, mai'r hyn ddylech chi fesur ydi'r gwerthfawrogiad.



Beth bynnag fo'r achlysur – ar adegau o lawenhau ac o alaru, y llon a'r lleddf yn ein bywydau ni – bu'n dewis ei eiriau'n ddoeth ac yn gynnwl, eu mynegi'n ddiwyll a bu ei ymweliadau â chleifion a theuluoedd i gyd yn rhai cysurlon. Roedd ganddo rywbeth i'w ddweud wrthym ni ym Methlehem, a phob Bethlehem a Bethel arall yr ymwelai â hwy dros Gymru benbaladr a thu hwnt i Glawdd Offa.

Ar ei ymddeoliad fel gweinidog, comisynwyd Rhys Dafis i gyfansoddi geiriau, a Ieuan Wyn, i gyfansoddi cerddoriaeth, a bu Côr Merched Bethlehem yn canu'r cyfansoddiad arobryn, 'Y Bugail Da' yn yr oedfa ddiolch:

Dy alwad ddôl i'n harwain; ninnau'n dilyn

At droed y Garth, fan hyn, i gorlan Duw; Buost Alun inni'n fugail da.

Ei sylw wrth ymddeol oedd: 'Gan i mi ddechrau pregethu yn Llanbryn-mair yn 1954, dyna drigain mlynedd o draethu. Fe alla' i ddweud yn onest na fu hapusach blynyddoedd na'r saith mlynedd ddiwethaf. Fel arfer, mae dyn yn dechrau trwy fwrw prentisiaeth a chyda phrofiad yn cyrraedd y brig. I mi, mae'n union groes i hynny gan i mi ddechrau ym Mharadwys a gorffen yn y Gwaelod!'

Bu'n ddiwyd yn paratoi, yn drylwyr a phwrpasol, ar gyfer ei oedfa olaf ar Sul 25 Mehefin eleni.

Cafodd gymeradwyaeth gan y gynulleidfa niferus, oedd, nid yn unig yn adlewyrchu'r gwerthfawrogiad o'r oedfa arbennig a gafwyd, ond yn gydnabyddiaeth deilwng o'i bresenoldeb a'i gyfraniad yn ein plith, fel gweinidog, ac wedi'r ymddeoliad, fel cyfaill.

Yn y Gwaelod, gyda'n gilydd – y down

I Dŷ llawn llawenydd;

Hafan ddiffwdan ein ffydd,

Manna yng nghysgod Mynydd.

Geiriau ei fab, Rhys Powys, yn sicrwydd bod Tŷ Cwrdd Bethlehem, Tŷ'r Bara, wedi elwa ar ei ganfed o gael rhannu a bwytia'r 'manna' yng nghwmni Alun.

Rhodri-Gwynn Jones

Ein hymateb i argyfwng diweddaraf y Dwyrain Canol: Galwad i weddi a chyfle i weithredu

Fore Sadwrn, Hydref 7fed, lansiodd Hamas ymosodiadau roced ar Israel gan arwain at y cynnydd mwyaf mewn trais a welwyd yn yr ardal. Bu farw miloedd o Israeliaid ac anafwyd llawer mwy. Dyma oedd yr ymosodiad mwyaf marwol ar Israel yn y degawdau diwethaf. Aled Davies sy'n crynhoi ein hymateb ni fel Cristnogion, gyda'r alwad i weddio a gweithredu.

Yn dilyn yr ymosodiad a ddaeth yn ddisymwth, fore Sadwrn, 7 Hydref, llofruddiwyd pobl gyffredin yn Israel yn ddirugaredd, gan gynnwys plant a gwragedd, gan yr ymosodwyr. Fe'n syfrdanwyd gan y lluniau erchyll a thorcalonnus o drais a llofruddio cwbl digynsail. Yn yr un modd yn Gaza, lladdwyd miloedd ac anafwyd llawer, yn blant ac yn bobl o bob oed. Mae cyrchoedd awyr yno hefyd wedi dinistrio cartrefi, ysgolion, meddygfeydd a chyfleusterau cyfathrebu. Mae ysbytai, oedd dan bwysau mawr yn barod, wedi eu llethu gan gleifion ac mae cannoedd o filoedd o bobl wedi gorfod ffoi. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at argyfwng dyngarol pellach, gyda'r angen am loches, bwyd a gofal meddygol bron yn amhosibl i'w gael. Wrth i *Cenn@d* fynd i'w wely roedd 3,500 o fywydau pobl diniwed wedi eu colli eisoes, a'r straeon yn dal i lenwi penawdau'r cyfryngau.

A ninnau'n wedi'n syfrdanu gan y galar, y dioddef a'r dychryn sydd wedi meddiannu'r Dwyrain Canol, mae'n siŵr bod ein meddyliau ni i gyd yn troi at y bobl ddiniwed sydd wedi cael eu dal ynghanol y fath gyflafan annynol a brawychus. I'r rhai hynny ohonom sy'n awyddus i gynnig cymorth o ryw fath mae cyfle i weddio dros yr argyfwng, yn ogystal â chyfrannu at apeladau gan fudiadau fel [Cymorth Cristnogol](#) ac [Embrace the Middle East](#). Mae modd hefyd arwyddo deiseb yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud y cyfan a fedr i sicrhau heddwch.



Lluncy (Wafal) in contract with APImages, CC BY-SA 3.0, via Wikimedia Commons



Llun: Palestinian News & Information Agency (Wafal) in contract with APImages, CC BY-SA 3.0

Dyma ddetholiad o weddiâu y gallwn ni eu defnyddio, boed ar y Sul neu'n ddyddiol ar ein haelwydydd:

Gweddi mewn ymateb i'r argyfwng

Dduw goleuni ac iachawdwriaeth, Ti yw ein noddfa a'n nerth, Gweddiwn dros bobl Israel a Phalestina yng nghanol y trais cynyddol yn y dyddiau heriol a gofidus hyn.

Gweddiwn dros y rhai sy'n cael eu lladd a'u hanafu gan rocedi o Gaza yn ne Israel. Bydded i'th allu di eu harwain at y dyfroedd tawel a'th wialen a'th ffon eu cysuro. Gweddiwn dros y rhai sy'n galaru. Bydded iddynt wybod a phrofi o'th gymorth hollbresennol. Wrth iddynt gerdded trwy ddyffryn tywyll du, gweddiwn am dy amddiffynfa gadarn a'th gysur ar y daith.

Gweddiwn am ddiogelwch ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu cymryd yn wystlon gan Hamas.

Wrth gerdded trwy'r dyffryn heriol hwn, na fydded iddynt ofni drwg. Yn ogystal gweddiwn dros bobl gyffredin Gaza. Bydded iddynt wybod mai ohonot Ti, greawdwr nef a daear, y daw eu cymorth. Gweddiwn dros bawb sydd wedi colli anwyliaid ac wedi colli eu heiddo a'u cartrefi.

Cofiwn yn arbennig am bawb sydd wedi cael eu lladd a'u clwyfo yn Gaza heddiw – bydded i Ti gysuro ac iacháu'r rhai sydd mewn poen a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid.

Gweddiwn dros y ffoaduriaid sy'n ceisio gadael a darganfod lle diogel – cadw nhw'n ddiogel ar y daith, a'u harwain i fan lle cânt groeso a noddfa dros dro.

A gweddiwn dros y rhai sydd mewn sefyllfa o awdurdod a grym yn Gaza ac Israel. Gweddiwn y bydd i Ti eu harwain ar hyd y llwybrau cywir a ffordd cyfiawnder.

Gofynnwn hyn oll mewn undeb â Christ gan ymddiried yn nerth dy Ysbryd Glân. Amen.

Ein hymateb i argyfwng diweddaraf y Dwyrain Canol: Galwad i weddi a chyfle i weithredu

(parhad o dudalen 1)

Gweddï o Ganolfan Sabeel yn Jerwsalem

Ein Tad, gweddïwn ein shalom a'n salaam wrth weld y trais a'r dinistr yn Israel a Gaza.

Gweddïwn am dy gyfiawnder a'th dosturi. Gweddïwn dros y diniwed a'r dieuog ymysg Israeliaid a Phalestinaid yn arbennig Gaza wrth i fwy o drais a lladd ddiinstrio eu cartrefi a'u chwalu ar ffo yn ffoaduriaid.

Boed i ni gofio'r hanes hir o ormes sydd wedi greu'r fath ddiester o genhedlaeth i genhedlaeth. Fe wyddost, Arglwydd mai dim ond dyfodol cyfiawn i bawb ddaw â heddych, gan dorri'r cylch dieflig hwn o drais.

Yn enw Dy fab a'n brawd ni oll, Iesu o Nasareth. Amen.

Gweddï gan Gymorth Cristnogol

O Dad nefol, clyw ein gweddïau dros heddych yn y Dwyrain Canol.

Bydded i bawb yn y rhanbarth gael eu hamddiffyn, a'u cadw yn ddiogel rhag niwed.

Gweddïwn y daw'r argyfwng hwn i ben yn fuan, heb golli rhagor o fywydau.

Dduw Dad, bydded i'r rhai sydd wedi eu hanafu brofi o'th bresenoldeb a'th iachâd. Bydded i'r bobl mewn grym a dylanwad ddilyn llwybrau cyfiawnder, trugaredd a heddych.

Gweddïwn am gydnabyddiaeth o urddas a gwerth pob bywyd.

Gofynnwn hyn i gyd yn dy enw di, Amen.

Bydd nifer ohonom yn holi'n hunain sut y gallwn ni weddio dros yr hyn sy'n digwydd yn Israel a Gaza ar hyn o bryd? Mae Mones Farah, a gafodd ei fagu yn Nasareth, ac sydd bellach yn Archddiacon gyda'r Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Tyddewi, yn rhannu ei feddyliau:

Yr hyn yr ydym yn ei dystio heddiw yn yr elyniaeth rhwng Israel a Hamas yw'r gwaethaf ers i'r gwrthdaro ddechrau ac mae'n ddiinstriol. Mae miloedd eisoes wedi marw ac wedi'u hanafu, mae gwystlon yn cael eu dal, cartrefi'n cael eu dinistrio, cymunedau wedi'u gwastatáu.

Wrth inni wylïo'n arswydus, rydyn ni am ymateb gyda gweddï ond efallai ein bod yn ansicr am yr hyn y dylem fod yn gweddïo amdano yn y sefyllfa anodd hon. Fel rhywun o'r rhanbarth rwy'n cynnig yr awgrymiadau canlynol a fydd, gobeithio, yn help i'ch arwain.



Llun: Palestinian News & Information Agency (Wafa) in contract with APImages, CC BY-SA 3.0, via Wikimedia Commons

Gweddïwch drosoch eich hun

Pan ddewch i weddi, gweddïwch yn gyntaf drosoch eich hun. Gweddïwch na fydd eich calon yn gwahanu Israel a Phalestina, Palestina ac Israel, fel eich bod chi'n dod i mewn o flaen Duw yn llwyr eisiau i gariad a daioni Duw gael eu rhyddhau yn y sefyllfa.

Gweddïwch yn erbyn ofn a bai

Mae'r gwrthdaro hwn wedi bod yn digwydd ers 76 mlynedd. Gweddïwch y bydd pobl yn dechrau gweld ei gilydd fel cyd-ddyn ac na fyddant yn ofni nac yn beio ei gilydd. Gweddïwch yn erbyn ysbryd ofn a bai.

Gweddïwch dros y teuluoedd

Gweddïwch dros deuluoedd ac anwyliaid y rhai sydd wedi'u cymryd yn wystlon a'r rhai sydd wedi colli eu bywydau neu wedi'u hanafu, ar y ddwy ochr. Gweddïwch dros y rhai sy'n bryderus ac yn galaru.

Gweddïwch am ddiwedd ar y gwrthdaro

Gweddïwch am ddiwedd ar unwaith i'r elyniaeth. Gweddïwch ar i bobl roi'r gorau i ddefnyddio geiriau casineb, sy'n tansilio ei gilydd ac yn gwneud i'r ochr arall ymddangos yn llai na dynol. Nid yw diwedd gelyniaeth yn ymwneud ag atal tanio bwledi, rocedi ac ymosodiad y fyddin yn unig – mae'n dechrau gyda'r galon yn gyntaf ac yna'r meddwl a'r ffordd yr ydym yn siarad am ein gilydd.

Gweddïwch dros yr heddychwyr

Gweddïwch dros bawb sy'n gweithio dros heddych, ar y ddwy ochr. Gweddïwch y byddan nhw'n cymryd eu galwad i fod yn dangnefeddwyr o ddifrif. O fewn hynny, gweddïwch dros yr eglwysi lleol, Iddewig ac Arabaidd. Gweddïwch dros Fwslimiaid ffyddlon a thros arweinwyr Iddewig a fydd yn siarad am heddych a chyfiawnder.

Mae angen i'r gwrthdaro hwn ddod i ben ac mae angen i dangnefeddwyr ddechrau cael y sgwrs honno.

Gweddïwch dros y rhai sydd dan warchae

Gweddïwch y bydd y gwarchae yn Gaza yn fyr, yn enwedig bwyd, dŵr, amwynderau hanfodol a chyfleustodau. Mae Gaza wedi dioddef cyhyd ac ni all gynnal dioddefaint pellach. Gweddïwch hefyd dros boblogaethau Israel, yn enwedig o amgylch Gaza, na fyddant yn parhau i fyw mewn ofn, gan aros mewn ardaloedd gwarchoddedig o'u hadeiladau a llochesi i fomiau, ond byddant yn gallu symud mewn rhyddid.

Gweddïwch dros y plant

Cofiwch bob amser y bobl ifanc, y plant, na allant fynegi beth sy'n digwydd. Gweddïwch dros y rhai sy'n cael eu dal yn wystlon a'r rhai sy'n byw gydag ofn mawr o beledu ar y ddwy ochr.

Gweddïwch am eglurder

Mae hwn yn wrthdaro cymhleth ac anodd. Ond gellir delio â'r cymhlethdod os byddwn yn rhoi'r gorau i ddweud ei fod yn gymhleth ac yn dechrau dweud ei fod yn anodd oherwydd pan fyddwn yn dweud 'cymhleth' ni allwn ddelio ag ef. Felly gweddïwch am eglurder ar sut i symud ymlaen ar gyfer y ddwy ochr.

Yn naturiol bydd Cenn@d yn parhau i

gadw golwg ar y sefyllfa, gan ddod â diweddariadau cyson i'ch sylw. Mae'n ddyddiau heriol mewn cymaint o ardaloedd ar hyn o bryd, ac nac anghofiwn chwaith am y dioddefwyr yn Morocco ac Afghanistan yn dilyn y daeargrynfydd diweddar, a'r dioddefwyr yn Lybia yn sgil y llifogydd a ddaeth i'w rhan. Yr un yw'r angen am ein gweddïau dros y rhyfel a'r colli bywydau sy'n parhau yn Wcraïn.

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrnodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 4

Ymestyn Allan Darllen Mathew 10:5-15 | 22 Hydref



man lle bydd y Meddyg Da yn ein gwella.

Ceir enghraifft debyg yn y Mwmbwls o eglwys yn addasu adeilad a chynnig caffï a siop grefftau yn y gofod lle bu llawr y capel gynt, ac addasu'r galeri drwy osod llawr yno a threfnu'r gofod i fod yn fan addoli amlbwrpas. Yr un syniad oedd ym meddwl cyfeillion Eglwys y Bedyddwyr yn Mlaenycwm, Rhondda, gan addasu'r brif fynedfa yn lleoliad hamdden megis caffï er mwyn hyrwyddo lle i groesawu pobl.

Bydd gan bob eglwys syniadau am beth sy'n addas i'w lleoliad a'i hadnoddau; yr hyn sy'n bwysig i bawb ei drafod yw cenhadaeth yr eglwys wrth ymestyn allan i'r gymuned yn enw Iesu.

Gweddi

Arglwydd Iesu, helpa ni i agor y drysau a rhoi modd i sgwrsio â'r byd oddi allan i'n cylchoedd arferol. Ynot ti mae gofod gobaith a llwyfan i gymdeithasu. Helpa ni i wneud hynny'n bosibl. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

- 1 Sut fydddech chi'n egluro'r comisiwn i genhadu yn lleol?
- 2 A yw eglwys sydd wedi colli ei gweledigaeth i genhadu wedi colli'r ysfaf i fyw fel eglwys?
- 3 A fydddech chi'n croesawu rhywrai fel Nick a Margerie Allan i ymuno â'ch eglwys chi?
- 4 Mae gan bawb ddoniau gwahanol. Beth yw eich dawn chi yng nghanhadaeth eich eglwys?
- 5 A yw eich eglwys yn fodlon ei byd neu'n anfodlon ei gwedd?

Gweddi

Arglwydd Iesu, cofiwn am dy gomisiwn i fynd allan a thystio i ti. Wrth i ni fyfyrto ar dy air, dyro arweiniad newydd i ni wireddu dy gomisiwn a byw'r ffydd. Amen.

Darlleniad: Mathew 10:5-15

Rhoi comisiwn i'r deuddeg

Cyflwyniad

Cofnodir gan Mathew, Marc a Luc hanes Iesu yn rhoi comisiwn i'r deuddeg disgybl i fynd at eu cyd-Iddewon er mwyn rhannu'r newyddion bod 'teyrnas nefoedd yn nesáu'. Roedd wedi rhoi awdurdod a grym iddynt i gyflawni'r hyn na allai pobl gyffredin ei wneud, sef iacháu cleifion, cyfodi'r meirw a glanhau'r gwahangleifion. Nododd nad oeddent i dderbyn tâl am eu gwaith, ond byddai hawl ganddynt i dderbyn bwyd. Mathew yn unig sy'n nodi nad oeddent i fynd at y Samariaid na'r cenhedloedd eraill, ond yn benodol at 'ddefaid colledig tŷ Israel', h.y. yr Iddewon.

Yn ddiddorol, nid yw loan yn cofnodi'r cyfnod hwn na'r comisiwn a oedd yn sail iddo. Byddai rhai'n dadlau nad amcan loan oedd ailadrodd cynnwys yr efengylau eraill, er ei fod wrth bob greddf yn awyddus i'r Eglwys Fore werthfawrogi comisiwn parhaol Iesu.

Myfyrnod

Bydd cenhadaeth yn rhan o agenda pob eglwys ac enwad, gobeithio – yr ymgais i gyflawni comisiwn Iesu yn ein cyfnod a'n cymuned. Yr her i bob eglwys yw chwilio am fodd o gyrraedd 'defaid colledig Israel'. Bu Nick a Margerie Allan yn byw a gweithio yn Sheffield, a disgwyl am arweiniad Duw ar eu cyfer. Gwelodd Nick fod eglwys y Methodistiaid yn cau yn Chwefror 2015 a gwnaeth yr ymholiadau priodol. O fewn chwe mis roeddent yn trefnu i ailagor yr adeilad, wedi addasu blaen y capel i fod yn gaffi, a daeth 200 o bobl ynghyd i agor Eglwys y Ffynnon – The Well Church. Mae'r enw yn cynnig sawl dehongliad, gan gynnwys y ffynnon o ddŵr bywiol Crist a

Lansio Tîm Caplaniaeth Newydd Arloesol yn y Senedd

Dydd Mercher, 4 Hydref, lansiwyd tîm caplaniaeth newydd yn y Senedd i roi cymorth i Aelodau Senedd Cymru, eu staff a gweithwyr seneddol.

Yn dilyn ymddeoliad caplan Aelodau cyntaf y Senedd, yr Uwchgaptan David Emery MBE, mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd yn y Senedd wedi sefydlu Tîm Caplaniaeth newydd y Senedd er mwyn cynnig gwasanaethau bugeiliol i ategu'r gwasanaethau cwnsela a chymorth eraill sydd eisoes ar gael gan y Senedd.

Y trefniadau newydd hyn ar gyfer y Tîm Caplaniaeth yw'r rhai cyntaf o'u bath mewn senedd genedlaethol. Maen nhw'n fwy blaengar, yn gynhwysol o ran rhywedd ac yn cynrychioli ffydd a chredoau pobl sy'n gweithio yn y Senedd, gan gynnwys caplan anghrefyddol yn ogystal â chaplaniaid â chefnid ffydd. Mae pob un o'r caplaniaid ar gael i roi gofal bugeiliol i bobl, beth bynnag eu ffydd neu gred.

Dyweddodd Darren Millar AS, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd yn y Senedd: "Mae trefniadau caplaniaeth newydd y Senedd yn arloesol ac rwy'n mawr obeithio y bydd seneddau eraill yn dilyn ein hesiampl. Mae'n bwysig parchu'r ystod o ffydd a chredoau anghrefyddol yn ein gweithleoedd ac mae tîm newydd y



Aelodau tîm newydd y gaplaniaeth yw: Mari Vaughan-Owen (Dyneiddwyr), Dr Laura Jones (Mwslim) a'r Parchg Ddr Stephen Adams (Cristnogol). Gwelwn hwy yma yn y Senedd gyda Darren Millar AS, cadeirydd Fforwm Ffydd y Senedd.

gaplaniaeth yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hynny. Mae cynnig gofal bugeiliol yn ffordd wych o ddangos i bobl yn y gweithle eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi."

Ychwanegodd: "Mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn ddiolchgar i'r Llywydd a Chomisiwn y Senedd am hwyluso ein gwaith i ddarparu gwasanaethau caplaniaeth yn y Senedd."

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 22 Hydref, am 7.30yh

Bydd Nia Roberts yng nghefn gwlad Sir Gâr i ddathlu tymor Diolchgarwch gyda chynulleidfafa Capel y Graig, Tre-lech. Cawn gwrdd â rhai o sylfaenwyr a hoelion wyth Aelwyd Hafodwenog, canolfan sydd wedi medi cynhaeaf cyfoethog o ddawnsywyr, cantorion a pherfformwyr am dros 40 mlynedd.

radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 22 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siân Meinir
Sul, 22 Hydref, am 12yp
Oedfa dan ofal Hannah Smethurst, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

sabothal.blog

Mae'r Parchg Alun Tudur ar gyfnod sabothol o dri mis o'i gyfrifoldebau fel gweinidog Ebeneser, Caerdydd. Mae'n edrych yn benodol ar gyflwr yr eglwys Cymraeg, yr angen i dyfu eglwys trwy dystio yn effeithiol i'r newyddion da yn Iesu ac i blannu cynulleidfaoedd newydd ymhlith pethau eraill. Mae Alun yn cadw blog ar y we o'i brofiadau a'i ganfyddiadau o dan yr enw sabothal.blog. Dyma flas o un o'i gyfraniadau



Addoli

Ar ddydd Sul 1 Hydref fe es yn y pnawn am 4 draw i Donypandy i addoli gydag eglwys Hope. (Cynhaliwyd yr oedfa trwy gyfrwng y Saesneg) Nid oeddwn erioed wedi bod yn y dref hon sydd yng nghwm Rhondda er nad yw ond 22 milltir o Gaerdydd. Mae'n drawiadol pa mor agos yw'r cymoedd yn ddaearyddol i Gaerdydd a pha mor bell yn ein hymwybyddiaeth!

Mae'r eglwys hon – a blannwyd ychydig flynyddoedd yn ôl – yn addoli mewn hen siop drydan, sy wedi ei haddasu, ar y brif ffordd trwy'r dref. (Fe soniaf fwy am hyn isod yn y sgwrs a gefais gyda Ben Franks, un o'r sylfaenwyr.) Mae'r siop yn union dros ffordd i hen gapel Annibynnol llwm sy wedi cau ers blynnyddoedd yn ôl yr olwg arno.

Roedd baneri glas yn cyhwfan y tu allan i'r siop yn tynnu sylw at y lleoliad. Fe es i mewn i'r gofod sy'n dal oddeutu 90–100 o bobl ac roedd yn gyffyrddus lawn gyda rhyw 60 wedi ymgynnull. Eisteddais i lawr yn un o'r cadeiriau – dwi'n dechrau teimlo fel rhyw fath o addolwr cudd (mystery worshipper) – ac yn syth bin daeth person ataf i'm croesawu, i ysgwyd llaw ac i gynnig paned oedd yn cael ei weini yn y gornel dde. Mor bwysig yw croesawu a chyfarach dieithriaid i'n hoedfaon ac nid eu hanwybyddu tan y cyhoeddiadau. Roedd awyrgylch braf, cartrefol a chyfoes yno.

Roedd patrwm yr oedfa ychydig yn wahanol. Cafwyd gair o groeso gan Simon y gweinidog, yna cyfnod o addoliad a

chanu o dan arweiniad menyw ar y gitâr, gŵr ar yr allweddell, a merch yn canu llais cefndir. Digwydd bod, roeddwn yn gyfarwydd â'r caneuon – diolch i oedfa foreol Ebeneser. Wedi'r mawl ar gân rhoddodd Simon wahoddiad agored i unrhyw un yn y gynulleidfa oedd am rannu gair neu weddio. Daeth 3 o bobl i rannu. Efallai bod hyn yn anghyfarwydd i ti. Yr hyn sy'n digwydd yw bod person yn rhannu gyda'r gynulleidfa rhywbeth y mae Duw wedi ei ddangos iddo yn ddiweddar, trwy weledigaeth, darlun neu adnod o'r Beibl. Rhywbeth sy wedi eu cyffwrdd mewn ffordd arbennig. Pwrpas hyn yw adeiladu'r eglwys wrth iddi sylweddoli fod Duw ar waith nawr ym mywydau ei bobl. (I Corinthiaid 14:4)

Yna, neilltuwyd 6 pherson – yn ddynion a merch – i wasanaethu fel diaconiaid yn yr eglwys. Gwnaed hynny trwy ofyn cwestiynau cyffredinol iddynt ac adrodd Credo'r Apostolion. Pleidleisiodd pawb oedd yn y gynulleidfa. Cafwyd gair o dystiolaeth gan fachgen ifanc 12 oed oedd wedi ei iacháu yn ystod gwyliau'r haf o anhwylder ar ei droed mewn gŵyl Gristnogol. Offrymodd ef air o weddi dros eglwys Hope. Darllenwyd o Efengyl Marc pennod 12 adnoda 18–32 a chafwyd pregethu 25 munud gan ŵr dienw. Roedd y bregeth braidd yn gymhleth i mi ac efallai y gellid cyflwyno'r deunydd yn fwy syml a dealladwy! Ond, dyna ni, efallai bod hynny'n adlewyrchu fy nghrebwyll diwinyddol a'm deallusrwydd i.

Swper yr Arglwydd

Yna, heb unrhyw rwysg cafwyd cymun. Y cymun mwyaf anffurfiol a ffwr-bwt y bûm yn rhan ohono erioed. Roedd y bara a'r gwin wedi eu gosod ar y bar coffi ac wedi ychydig eiriau o esboniad gan y gweinidog gwahoddiwyd unrhyw un oedd am gymuno i helpu eu hunain yn ystod cân a ganwyd.

Gwaetha'r modd bu rhaid i mi rithro oddi yno gyda'm gwynt yn fy nwrn oherwydd bod gennyf drefniant arall. Un oedfa a gynhelir ar y Sul a honno yn awr a hanner i ddwy awr o hyd. Erbyn hyn, hyd y gwelaf fi, ychydig o eglwysy sy'n cynnal dwy oedfa bregethu ar y Sul. Mwynheais yr oedfa a'r croeso cynnes a chefais fendith yng nghwmni saint Hope, Tonypany. Dyma batrwm da y gellid ei efelychu yn rhwydd.

Sgwrs

Cefais sgwrs galonogol iawn gyda Ben Franks yn y Gatto Lounge, Pontypridd, wrth ymyl yr hen bont. Lle da am baned. Ben a'i wraig Lois oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu eglwys, Hope Tonypany. Roedd yr hyn a rannodd gyda mi yn ysbrydoliaeth fawr. Pan oeddent yn eu

harddegau hwyr yr oedd y ddau ohonynt mewn oedfa yng nghapel y Bedyddwyr, Rhiwbeina, Caerdydd. Roedd pregethwr gwadd yn yr oedfa honno a ddaeth o Ferthyr Tydfil. Yn ystod ei bregeth cyfeiriodd at y dirywiad ysbrydol mawr oedd wedi digwydd yn y cymoedd a bod yn dystiolaeth Gristnogol yn prinhaus. Ym Merthyr a'r cyffiniau roedd 80 mil o bobl yn byw a dim ond canran fechan iawn yn mynychu eglwys. Cyffyrddodd hyn Ben a Lois yn ddwfn a'u hargyhoeddi o'r angen i blannu eglwysy newydd yn y cymoedd.

Wedi cyfnod i ffwrdd yn y coleg daethant yn ôl yr un mor argyhoeddedig o alwad Duw ac aethant ati i gychwyn yr achos yn Nhonypany. (poblogaeth 17 mil) Cychwynwyd y gwaith trwy gynnal cwrdd gweddi ac addoliad yn eu cartref. Yn raddol iawn cynyddodd y niferoedd i 12 ac fe benderfynwyd y byddai rhaid cael lleoliad mwy. Am gyfnod cawsant ganiatâd i ddefnyddio hen gapel Bedyddwyr yn y dref. Roedd yr achos gwreiddiol wedi dirwyn i ben. Wedi cyfnod byr yno nid oeddent yn teimlo fod y capel yn addas ar gyfer eu gweithgareddau. Yn fuan sylweddolwyd fod gan rai o'r bobl leol ragfarnau mawr tuag at yr hen gapeli gan eu bod yn cyfleu iddynt ymdeimlad o feirniadaeth a moesoli.

Felly, penderfynwyd chwilio am ganolfan arall. Dewiswyd yr hen siop drydan ac aethpwyd ati i godi arian ac yna i addasu'r adeilad. Roedd hynny yn golygu codi dros £100,000. Erbyn iddynt gychwyn ar eu gweithgareddau yno roedd y ddyled wedi ei thalu yn llwyr. Mae Ben yn teimlo fod Duw wedi ei fendithio gyda'r ddawn i gychwyn eglwysy ac nid eu tyfu. Dyna pam fod Simon a Lucy erbyn hyn yn arwain Hope, Tonypany. Mae Ben a Lois yn symud ymlaen i gychwyn cynulleidfa newydd yn Nhreforci. Nid ydynt yn gwneud hyn o'u pen a'u pastwn eu hunain maent yn cael cefnogaeth gan fudiadau fel Derwen ac Advance ac y mae nifer o eglwysy ac unigolion yn gweddio drostynt.

I mi mae'n hyfryd gweld Cristnogion ifanc yng Nghymru yn mentro mewn ffydd i hyrwyddo teyrnas Dduw ac i dystio i Iesu Grist fel Arglwydd a Gwardwr gan ennill pobl newydd. Mae'n rhaid inni ofyn y cwestiwn a'i trwy weithgareddau fel hyn y mae'r dyfodol. Rhaid inni fel eglwysy Cymraeg feddwl am hyn o ddifrif gan ystyried cychwyn cynulleidfaoedd newydd.

Diolch i Ben am roi ei amser i mi ac am rannu ei brofiad. Rhannodd Ben hefyd daflenni sydd wedi eu paratoi gan 100 Cymru. Cynllun newydd anenwadol sydd ar y gweill i blannu eglwysy yng Nghymru.

Barn Annibynnol

Roedd fy niweddar dad-yng-nghyfraith yn gapten llong. Yn un o feibion Moelfre, treuliodd oes gyfan ar y môr, gan wasanaethu yn y Llynges Fasnachol cyn gweithio wedyn i sawl cwmni llongau. Hwyliai i bellafoedd byd, a hynny mewn dyddiau pan nad oedd na Facetime na Zoom na dim modd cysylltu ag adre ond am y radio *ship-to-shore* pe bai argyfwng.

Ymhlith ei stôr o straeon ac atgofion roedd hanes am y modd y mae capten, wrth agosáu at borthladd prysur, anghyfarwydd yn dibynnu ar 'beilot' er mwyn cyrraedd pen-draw'r daith yn ddianaf. Mae'r capten yn ildio gofal ei long i beilot sy'n adnabod y peryglon a'r rhwystrau i gyd, ac yn llywio'n sicr er mwyn cyrraedd harbwr diogel. Capten ffôl iawn fyddai'n gwrthod cyfarwyddyd



y peilot.

Dydy 'ildio' ddim yn weithred boblogaidd yn ein hoes ni. Fe'n cyflyrwyd i fawrygu'r cryf, y cyflym, a'r hyderus ar draul yr ansicr, y pwylllog a'r dihyder. Ond fel y mae'r capten yn ildio i beilot sy'n gwybod am bob bygythiad, mae'r Testament Newydd yn galw arnom ninnau hefyd i ddilyn y cyfarwyddyd a'r cyfeiriad a gawn, gan ymddiried yng ngras achubol y Gwaredwr. 'Rho dy law yn llaw Duw, a bydd hynny'n well i ti na lamp olau ac yn sicrach na llwybr cyfarwydd.'

Gwyddom fod y môr yn ddelwedd bwerus a phoblogaidd gan ein hemynwyr: 'Pan wyt ar fôr bywyd ...' 'Pan ddelo plant y tonnau yn iach o'r cystudd mawr ...' 'Gwelaf dros dy lanw nerthol ...' Ac er bod mwynder Maldwyn ymhell o unrhyw fôr tymhestlog, 'dyma'i beilat' medd Ann Griffiths wrth ddisgrifio dibyniaeth y pechadur ar ras y Gwaredwr i'n dwyn i'r lan (er i

olygyddion diweddarach ddiwygio 'peilat' i 'llywydd').

Yn Sul Cyfundeb Gorllewin Morgannwg yn ddiweddar, cawsom gyflwyniad hynod fendithiol gan Siân Meinir, Penarth. 'Pererindod y Gân' oedd thema'r oedfa a chlywsom am ddylanwadau a phrofiadau gyrfa ddisglair Siân fel cantores broffesiynol. Dilyn Iesu oedd byrdwn ei neges gan ymddiried ynndo Ef i'n harwain ar ein pererindod bersonol – yn

union fel yr ymddirieda'r morwr yn y peilot er mwyn cyrraedd glan. Gŵyr y Gwaredwr am bob storm a all beri i ni 'gollin cwpawd' chwedl Pantycelyn; mae'n ein hadnabod yn well na ni ein hunain.

I gloi ei sgwrs gofiadwy, canodd Siân eiriau gan y diweddar Euryn Ogwen ar ei halaw hi ei hun. Mae'r penillion yn drawiadol a pherthnasol, a gellid clywed yr emyn hwn, ynghyd ag eraill ar sianel YouTube Siân Meinir. Diolch am ganiatâd i'w cynnwys yma:

Ymddiried yn yr Iesu

Pan fo'n byd yn llawn trafferthion
a pheryglon ar bob llaw,
mae dy eglwys yn dibynnu
arnat ti beth bynnag ddaw;
Ymddiriedwn
ynot Ti, O Iesu mawr.

Nid oes gennym yr adnoddau
i oroesi hebot ti;
rydym angen agor allan
a chael eraill atom ni,
Ymddiriedwn
ynot Ti, O Iesu mawr.

Ni all pobol dy gyfyngu
i hwylustod unrhyw drefn,
gad in deimlo nerth yr ysbryd
fel yr awel wrth ein cefn;
Ymddiriedwn
ynot Ti, O Iesu mawr.

Eurig Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

GOHEBIAETH

Annwyl Olygydd,

Diolch o galon i Owain Llŷr am yr hanesyn am 'gallant act' y Parchedig Rowland Hughes ar orsaf Caerdydd pan oedd ar ei ffordd i bregethu yn Heol Awst, Caerfyrddin (*Y Tyst*, 28 Medi). Cefais fy atgoffa o brofiad gefais i – nad oedd yn galw am unrhyw wrhydri – yn fy mlwyddyn olaf yn y coleg yn 1968. Roeddwn yn gyrru o Bontycymer, ble roedd mam yn byw, i Abercarn, Sir Fynwy, i bregethu 'ar brawf' yng nghapel cynulleidfaol Saesneg y Garn (*yn y llun*). Ar y comin gerllaw ysbyty'r Parc (ddaeth yn garchar yn ddiweddarach) fe'm stopiwyd gan ddau lanc oedd wedi bod yn chwarae â gwn aer. Roedd un ohonynt wedi cael brathiad difrifol ar ei wddf. Ar eu cais, mynd â nhw at y meddyg teulu. Hwnnw'n galw arnom o ffenest y llofft am fynd i *casualty* hen ysbyty Pen-y-bont yn Heol Cwarella.

Wedi sicrhau eu bod mewn dwylo da yno, parhau ar fy nhaith. Cyrraedd hanner awr yn hwyr, wrth gwrs, a'r diaconiaid – yn y dyddiau cyn ffôn symudol – yn aros amdanaf y tu allan yn methu deall beth oedd wedi digwydd i'w hymwelydd am y Sul. Esbonio beth oedd wedi digwydd a



phawb yn deall yn iawn, wrth gwrs.

Penderfynodd gwraig y cyn-weinidog, oedd yn gyfrifol am yr ysgol Sul, ddefnyddio fy mhrofiad i esbonio dameg y Samariad Trugarog i'r plant. Ni chafodd y neges drosodd i bawb, mae'n amlwg, gan i un o'r plant fynd adre ar ôl yr oedfa a dweud wrth ei rieni: 'The preacher this morning was shot in the neck!' Ddim cweit. Efallai fod neges genhadol yma, fodd bynnag: 'Gyda'r rhai a glwyfwyd, byddwch yn eu plith fel un a glwyfwyd eich hunan!' Mae uniaethu ag eraill yn elfen bwysig o'n cenhadaeth Gristnogol.

Gyda llaw, ar waetha'r digwyddiad hwn, fe dderbyniais alwad yno ond penderfynu, yn hytrach, i dderbyn galwad a gefais hefyd o Fryn Seion, Glanaman. Petawn wedi mynd i'r Garn byddai cwrs fy ngweinidogaeth wedi bod yn wahanol iawn, mae'n siŵr.

Boed bendith Duw ar bob gweinidogaeth, ym mhob man ac ym mhob iaith.

Noel Davies
Abertawe

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

YMDDEOLIAD Y PARCHG GARETH EDWARDS

Dechrau Hydref, a dechrau cyfnod newydd yn hanes y Parchedig Gareth Edwards.

Ar fore Sul, 1 Hydref 2023, traddododd y Parchedig Gareth Edwards ei bregeth olaf fel gweinidog yn y Capel Coffa (A) Cyffordd Llandudno. Ar ddiwedd yr oedfa manteisiwyd ar y cyfle i gyfleu gwerthfawrogiad iddo am ei wasanaeth dros y tair blynedd ar ddeg y bu'n gweinidogaethu yno. Darllenwyd crynodeb o'i hanes a theyrnedd i Gareth gan Carol Edwards. Soniodd fel y gadawodd Gareth fro ei febyd i dreulio amser ym Mangor lle graddiodd yn y Gymraeg, ac wedyn i Aberystwyth lle cymhwysodd i'r weinidogaeth cyn ennill gradd BD yn Abertawe.

Bu Gareth yn weinidog yr Efengyl am gyfanswm o hanner cant a thair o flynyddoedd. Treuliodd gyfnodau fel gweinidog yng nghylchoedd Cwm Tawe, Porthmadog, a'r Wyddgrug, yn ogystal â chyfnod yn Ysgrifennydd Cyffredinol i'r Presbyteriaid yng Nghaerdydd. Er mai ond 'rhan amser' oedd ei gytundeb yng Nghapel Coffa, rhoddodd weinidogaeth gyfoethog a gwerthfawr, gan fod yn ofalgar iawn o'i braidd, ac roedd bob amser ar gael.

Ar ran yr aelodau cyflwynwyd tysteb i Gareth ynghyd â theyrnedd bersonol gan Sam Owen, diacon hynaf yr eglwys, a



rhodd o flodau i Margaret ei briod gan y diacon ieuengaf, Heledd Cressey.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd paned a chacen arbennig yn yr ysgoldy, pryd yr oedd cyfle i bawb gymdeithasu a hel atgofion gyda Gareth a Margaret, a chyfle i ddymuno hir oes o iechyd a hapusrwydd i'r ddau.

Dyma englyn a gyfansoddwyd gan y Parchedig Desmond Davies, Caerfyrddin, cyfaill mynwesol i Gareth ers dyddiau coleg ym Mangor:

I'th gyfarch ar dy ymddeoliad, Gareth

Yn goeth yn dy bregethau – heb atal
Yn ateb galwadau;
Gareth, rhoddaist y gorau
Ac mae'n ddydd i ymryddhau

Amcanu am y sêr

Rydym yn amcanu am y sêr,
ond yn aml yn methu,
gan mai pobl ffaeledig ydym –
brau, orio a phigog,
pobl sydd angen dy gariad Di
i'n cynhesu.


Rydym yn amcanu creu gwell byd,
ceisio ailgylchu plastig
a llenwi sach o bapurach;
taflu ceiniog i sawl bwced.
Ond mae'n byd unwaith eto
isio ei gofleidio
gan freichiau cynnes y Goruchaf,
ein breichiau ni bellach.

Rydym yn amcanu canu cân i Ti,
rhai allan o diwn,
rhai'n canu'r alaw yn unig,
neu rhai sydd heb ganu nodyn o'u cegau,
eu pennau yn curo curiad y potensial.
Ond rydym oll angen clywed
Dy hen alaw oesol Di eto
yn ein calonnau.

Rydym yn amcanu i fod yn ddynol,
i gael blas ar fyw.
Dilyn llwybr ac esiampl Crist
rydd yr hapusrwydd eithaf
wrth i ni geisio ymgorffori ei syniadau,
ac i fod yn gorff newydd Iddo ar y ddaear.

Aled Lewis Evans
(allan o *Shalom* Medi a Hydref 2023)

Croeso! i ddysgu mwy am Hanes yr Eglwys



Cyfres gyffrous gan
Y Parchg GUTO PRYS
ap GWYNFOR
Festri Heol Awst
Caerfyrddin SA31 3AP
Pob pŵan Llun
1.30 – 3.30

HYDREF 23 a 30, a TACHWEDD 6, 13, 20 a 27



Os am fwy o fanylion: Parchg Carwyn Siddall
Cydlynedd Hyrwyddo Gweinidogaethau
01792 795888 carwyn@annibynwyr.cymru

RHAGLEN DYSGU A DATBLYGU UNDEB YR ANNIBYNWYR

Dathlu yn Nebo

Pleser o'r mwyaf i aelodau Nebo oedd gweld Mrs Phyllis Bell yn cael ei hanrhydeddu drwy dderbyn Medal Gee yn yr Alltwn yn ddiweddar. Rydym am ddiolch iddi am ei gwaith i Grist yn Felindre, gan ofyn am fendith yr Arglwydd ei holl ymdrechion.

